Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

## AROLYGU DARPARIAETH ADDYSGOL AR GYFER PLANT CYN OEDRAN ADDYSG ORFODOL

# ADRODDIAD MEITHRIN AR GYLCH MEITHRIN HILL STREET WRECSAM

**Arolygydd Addysg Feithrin Cofrestredig:** **Jean Marshall**

**Dyddiad yr arolygiad:** **23 a 24 Hydref 2006 (boreau)**

**Rhif y contract :** **T/026/06N**

**(c) Hawlfraint y Goron 2005. Gellir atgynhyrchu rhan neu'r cyfan o'r adroddiad hwn at ddibenion addysgol anfasnachol ar yr amod y caiff yr holl ddetholiadau eu hatgynhyrchu gair am air heb eu haddasu ac y cydnabyddir dyddiad a ffynhonnell y detholiadau.**

## ADRODDIAD AR AROLYGU LLEOLIADAU MEITHRIN YN Y SECTOR NAS CYNHELIR

| | |
|---|---|
| **Enw'r feithrinfa:** | **Cylch Meithrin Hill Street** |
| **Cyfeiriad:** | **13 Hill Street** |
| | **Wrecsam** |
| **Cod post:** | **LL11 1SN** |
| **Ffôn:** | **07910 273112** |
| **Person sy'n gyfrifol am reolaeth o ddydd i ddydd:** | **Mrs Gail McGrane** |
| **Swydd:** | **Arweinydd** |

**Ynglŷn â'r arolygiad**

Cynhaliwyd yr arolygiad hwn fel rhan o raglen genedlaethol o arolygiadau o'r ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant cyn oedran addysg orfodol yng Nghymru. Cafodd ei gomisiynu gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Diben yr arolygiad yw nodi nodweddion da a diffygion fel y gall darparwyr wella ansawdd yr addysg a gynigir a helpu plant i gyflawni eu llawn botensial. Diben arall yw hysbysu rhieni a'r cyhoedd am ansawdd addysg feithrin. Rhaid rhoi copi o adroddiad yr arolygiad i bob rhiant/gofalwr â phlentyn yn y feithrinfa a dylai fod ar gael ar gais i bobl eraill.

Mae'r arolygwyr wedi defnyddio graddfa pum pwynt i gofnodi pob barn. Dyma'r diffiniadau gradd:

| | | |
|---|---|---|
| **Da iawn** | **(Gradd 1)** | **llawer o nodweddion da, rhai ohonynt yn rhagorol;** |
| **Da** | **(Gradd 2)** | **nodweddion da a dim diffygion pwysig;** |
| **Boddhaol** | **(Gradd 3)** | **nodweddion da yn gorbwyso diffygion;** |
| **Anfoddhaol** | **(Gradd 4)** | **rhywfaint o waith boddhaol, ond diffygion mewn meysydd pwysig;** |
| **Gwael** | **(Gradd 5)** | **llawer o ddiffygion** |

## 1.0 CYD-DESTUN Y LLEOLIAD

**Cyd-destun y lleoliad meithrin:**

Mae Cylch Meithrin Hill Street yn feithrinfa gofrestredig sy'n rhan o ddarpariaeth y Mudiad Ysgolion Meithrin. Mae'n cyfarfod yn y boreau am bedair sesiwn yr wythnos yn ystod tymor yr hydref, a phump sesiwn yr wythnos yn ystod tymor y gwanwyn a thymor yr haf.

Lleolir y cylch meithrin mewn ystafell ar lawr uchaf adeilad sydd dan reolaeth pwyllgor y Ganolfan Ieuenctid yng nghanol tref Wrecsam. Mae'r ystafell o faint digonol sy'n cynnig ethos ac amgylchedd ddysgu braf i'r plant. Mae cegin a storfa addas yn arwain o'r ystafell. Nid oes man chwarae yn yr awyr agored ar gyfer y cylch.

Sefydlwyd y cylch meithrin dros 30 mlynedd yn ôl er mwyn darparu addysg gynnar trwy gyfrwng y Gymraeg i blant ardal Wrecsam. Er bod y rhan fwyaf o'r plant yn dod o gartrefi di Gymraeg, maent bron yn ddieithriad yn symud ymlaen i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn un o'r ysgolion lleol. Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgolion hyn a'r trefniadau trosglwyddo iddynt yn dda.

Yn ystod yr arolygiad, roedd wyth o blant ar y gofrestr yn cynnwys pedwar plentyn dan dair oed. Nid oes plentyn â datganiad yn nodi anghenion arbennig yn y cylch ar hyn o bryd. Oherwydd dyddiad eu pen blwydd, nid oedd yr un o'r plant tair oed yn gymwys i dderbyn cyllid Addysg Gynnar yn ystod y tymor yma.

Mae'r arweinydd yn y swydd ers 17 mlynedd a'r gynorthwywraig ers blwyddyn. Mae gan y ddwy aelod o staff Gymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol [CGC] Lefel 3.

Dyma'r tro cyntaf i'r feithrinfa gael ei harolygu dan drefn Estyn. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Safonau Gofal yng Nghymru ym Mawrth 2006.

## 2.0 PRIF GANFYDDIADAU'R ADRODDIAD

**2.1 Ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ac a yw'r ddarpariaeth yn llwyddo i hyrwyddo'r targedau ar gyfer dysgu plant ai peidio**

Mae ansawdd a safonau cyffredinol y ddarpariaeth addysgol ar gyfer y plant yn briodol i'w hanghenion, ac maent yn gwneud cynnydd da tuag at y Canlyniadau Dymunol ar gyfer Dysgu Plant.

## 2.2 Safonau a gyflawnir gan blant yn y chwe maes dysgu

| Chwe maes Dysgu | Barn ar gyfer plant 3-4 oed | Barn ar gyfer plant 4-5 oed |
|---|---|---|
| **Medrau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **Gradd 2** | **-** |
| **Datblygiad Personol a Chymdeithasol** | **Gradd 1** | **-** |
| **Datblygiad Mathemategol** | **Gradd 2** | **-** |
| **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd** | **Gradd 2** | **-** |
| **Datblygiad Corfforol** | **Gradd 2** | **-** |
| **Datblygiad Creadigol** | **Gradd 2** | **-** |

## 2.3 Barn arolygu ar ansawdd yr addysg a ddarperir gan y lleoliad

| Ansawdd yr Addysg | Barn ar gyfer plant 3-4 oed | Barn ar gyfer plant 4-5 oed |
|---|---|---|
| **Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant.** | **Gradd 2** | **-** |
| **Ansawdd yr addysgu.** | **Gradd 2** | **-** |
| **Ansawdd yr asesu a chofnodi cynnydd plant, ac adroddiadau i rieni a gofalwyr.** | **Gradd 2** | **-** |
| **Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned.** | **Gradd 2** | **-** |

## 2.4 Ansawdd yr arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad

Mae'r cylch yn cael ei arwain a'i reoli'n dda. Mae'r arweinydd yn brofiadol yn ei swydd ac mae wedi sefydlu systemau a threfniadaeth effeithiol. Sefydlodd berthynas waith dda gydag aelodau'r pwyllgor rheoli, y bartneriaeth lleol, a'r Mudiad Ysgolion Meithrin ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth.

## 2.5 Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant

Mae ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda. Mae'r oedolion yn trin pob un o'r plant yn deg a chwrtais gan eu hannog i gydweithio, rhannu a helpu eraill.

**2.6 Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad o ran rhoi ar waith y materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygiad diwethaf**

Dyma'r tro cyntaf i'r cylch meithrin gael ei arolygu gan Estyn.

## 3.0 Y SAFONAU A GYFLAWNIR GAN BLANT YN Y CHWE MAES DYSGU

Safonau a gyflawnir gan blant 3-4 oed

### 3.1 Medrau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

**Nodweddion da**

Er bod y mwyafrif helaeth o'r plant yn dod o gartrefi lle siaredir Saesneg fel iaith gyntaf, mae'r plant yn gwrando'n astud ac yn ymateb yn gywir i gyfarwyddiadau syml yn y Gymraeg.

Wrth sôn am eu profiadau, maent yn siarad yn hapus a rhwydd yn eu mamiaith. Maent yn sgwrsio wrth chwarae, gyda'i gilydd a chydag oedolion ac mae'r mwyafrif yn ynganu'n glir ac yn defnyddio ystod da o eirfa. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r Gymraeg a gwnânt ddefnydd cynyddol o'r iaith wrth gyfarch, disgrifio ac ateb cwestiynau. Maent yn gwybod nifer dda o rigymau a chaneuon Cymraeg ar y cof ac mae mwyafrif helaeth y plant yn canu'r geiriau'n gywir.

Mae'r plant yn gwrando'n astud ar stori o lyfr ac yn ymateb yn frwdfrydig i gwestiynau am y cynnwys. Maent yn deall sut mae llyfrau'n gweithio ac yn cofio enwau cymeriadau cyfarwydd mewn stori. Maent yn cymryd eu tro i fynd â'r tegan Heulwen Hwyaden adref dros y Sul ac yn cyfrannu'n dda wrth rannu'r profiadau a dangos lluniau i weddill y dosbarth ar ddydd Llun.

Maent yn ymwybodol o brint o'u cwmpas ac mewn llyfrau ac maent yn dechrau cyfathrebu'n briodol ar bapur drwy liwio, tynnu llun a gwneud marciau.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

## 3.2 Datblygiad Personol a Chymdeithasol

**Nodweddion da**

Mae gan y plant berthynas dda gyda phlant eraill ac oedolion. Maent gan amlaf yn ymateb yn syth i orchmynion a chyfarwyddiadau ac yn cyd chwarae'n hapus gan ddisgwyl eu tro yn amyneddgar a chadw at reolau syml. Mae mwyafrif helaeth y plant yn dangos hunan reolaeth sydd y tu hwnt i'w hoed.

Mae'r plant yn dangos lefel ragorol o annibyniaeth. Gallant dynnu a gwisgo'u cotiau eu hunain a dangosant ymwybyddiaeth dda o'r angen am hylendid personol. Maent yn dewis gweithgareddau chwarae yn hyderus ac yn rhannu offer ac adnoddau yn rhwydd. Maent yn dyfalbarhau wrth geisio gwneud tasgau newydd a gallant ganolbwyntio am gyfnodau estynedig. Gydag anogaeth, mae'r plant yn barod iawn i helpu i gadw a thacluso offer ar ôl gwahanol weithgareddau.

Mae pob plentyn yn ei dro yn gweithredu fel 'Helpwr Heddiw'. Maent yn gofalu'n annwyl am ei gilydd wrth ddosbarthu offer ac adnoddau ac wrth rannu bwyd yn ystod y cyfnod byrbryd. Ymateba'r plant eraill yn barchus drwy ofyn a diolch yn gwrtais. Mae hon yn nodwedd ragorol.

Wrth gymryd eu tro i fwydo'r pysgodyn aur, daw'r plant i ddeall bod angen trin pethau byw gyda gofal a pharch. Gan amlaf, maent yn dangos parch tuag at blant eraill ac oedolion. Maent yn deall yn dda y gwahaniaeth rhwng da a drwg ac yn barod iawn i ymddiheuro am unrhyw gamymddygiad.

Maent yn ymateb yn gadarnhaol i brofiadau ieithyddol a diwylliannol newydd ac yn deall a defnyddio ystod o ymadroddion a geirfa Gymraeg.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

## 3.3 Datblygiad Mathemategol

**Nodweddion da**

Mae'r plant yn deall y gwahaniaeth rhwng mawr a bach, a hir a byr, ac yn defnyddio iaith fathemategol syml yn gywir yn eu chwarae wrth drafod, disgrifio a chymharu teganau a gwrthrychau cyfarwydd eraill. Maent yn cyfrif a chymharu hyd a chyfanswm gyda chywirdeb cynyddol mewn gweithgareddau gyda chareiau.

Llwyddant yn dda i drefnu, cyfatebu a dosbarthu pethau cyfarwydd wrth chwarae gem dominos ac wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt. Dônt i ddeall cysyniadau megis maint, siâp, cynhwysedd a chyfrif drwy chwarae'n arbrofol yn y cafnau dŵr a thywod. Maent yn dechrau adnabod ac enwi siapiau sylfaenol dau ddimensiwn.

Mae'r plant yn cofio nifer dda o rigymau rhif ac yn eu canu gyda brwdfrydedd. Maent yn rhifo yn uchel hyd at bump a gall y plant hynaf gyfrif nifer fach o wrthrychau yn gywir.

Wrth drafod dyddiau'r wythnos a digwyddiadau dros y Sul yn rheolaidd, mae'r plant yn dechrau dod yn ymwybodol o drefn amser. Wrth chwarae'n ddychmygol, dônt i ddeall fod angen arian i brynu nwyddau mewn siop.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

### 3.4 Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

**Nodweddion da**

Mae'r plant yn sgwrsio'n hyderus am eu ffrindiau, eu teuluoedd a'u cartrefi a gall rhai enwi'r tŷ a'r stryd lle maent yn byw. Maent yn trafod yn rhwydd beth gawsant i frecwast gan fynegi hoffter o wahanol fwydydd. Maent yn dechrau deall am drefn diwrnod ac ystyr ddoe, heddiw ac yfory.

Mae'r plant yn trafod y tywydd yn ddyddiol gan gyfeirio'n hawdd at unrhyw newidiadau. Maent yn adnabod a dewis symbolau a geiriau allweddol syml yn gywir er mwyn cofnodi'r tywydd ar siart. Deallant yn dda sut i wisgo Tedi yn ôl gofynion y tywydd ac maent yn ymwybodol o'r angen iddynt hwy wisgo dillad cynhesach fel mae'r tywydd yn oeri.

Drwy ymweliadau â'r parc, y swyddfa bost a'r llyfrgell yn ystod tymor yr haf, daw'r plant yn ymwybodol ac yn gyfarwydd a'u cynefin cyfagos a thu hwnt. Dônt yn ymwybodol o waith rhai pobl yn y gymuned drwy weithgareddau gwisgo i fyny a chwarae rôl.

Maent yn plannu bylbiau cennin Pedr gan ddangos ymwybyddiaeth dda o sut mae planhigion yn tyfu a sut i ofalu amdanynt. Mae ganddynt wybodaeth dda am wahanol rannau'r corff. Maent yn gallu adeiladu llun plentyn yn hyderus drwy roi'r darnau gwahanol yn y lle cywir.

Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ac yn arbrofi'n hyderus gydag amrywiaeth eang o ddeunyddiau er mwyn creu a gwneud.

**Diffygion**

Nid yw'r plant yn gwneud digon o ddefnydd o'r amgylchedd lleol ar bob adeg o'r flwyddyn er mwyn datblygu dealltwriaeth a medrau pwysig.

## 3.5 Datblygiad Corfforol

**Nodweddion da**

Mae'r plant yn gafael mewn cyfarpar bach megis creonau, brwshys paent a siswrn yn gywir ac yn eu defnyddio gyda rheolaeth gynyddol. Maent yn arddangos cydweithrediad llaw a llygad da wrth roi gleiniau ar linyn ac wrth liwio rhwng llinellau.

Maent yn dewis, yn gosod a threfnu blociau adeiladu a theganau mân yn ofalus ac yn fedrus. Deallant yn dda sut i wthio, rolio, tynnu, siapio a thorri toes chwarae er mwyn gwneud modelau syml.

Mae'r plant yn defnyddio amrywiaeth briodol o offer chwarae mawr y tu fewn yn ddiogel ac yn ofalus. Symudant yn hyderus gan ddangos ymwybyddiaeth dda o ofod wrth chwarae gyda beiciau, ceir a throliau. Defnyddiant wahanol rannau o'r corff yn fedrus wrth bedlo, rheoli a llywio'r teganau i wahanol gyfeiriadau. Cydweithiant yn effeithiol gan ddangos rheolaeth dda wrth wneud i'r si-so symud.

**Diffygion**

Oherwydd nad oes man chwarae diogel y tu allan, ni chaiff holl fedrau corfforol y plant, megis y rhai sy'n ymwneud â rhedeg, eu datblygu'n ddigonol.

## 3.6 Datblygiad Creadigol

**Nodweddion da**

Mae'r plant yn ymdrin ag ystod da o wahanol gyfryngau yn rheolaidd wrth brintio, arlunio, peintio a modelu. Maent yn dechrau arbrofi gyda lliwiau ac mae ambell un o'r plant hynaf yn deall y gellir cymysgu lliwiau i greu arlliwiau newydd. Dewisant liw ac offer yn ofalus wrth wneud modelau tri dimensiwn gyda thoes chwarae. Maent yn disgrifio yn syml y gwaith sydd wedi ei gwblhau.

Mae'r plant yn gwybod nifer o ganeuon syml a hwiangerddi ar y cof ac yn eu canu'n hyderus a brwdfrydig. Maent yn arbrofi gyda gwahanol offerynnau cerdd ac yn dechrau cadw rhythm gyda cherddoriaeth gefndirol ac wrth gyfeilio i'w canu. Maent yn cymryd rhan yn hyderus mewn gweithgareddau dawns creadigol syml.

Mae'r plant yn dewis dillad addas ar gyfer chwarae rôl ac yn dechrau dod yn ymwybodol o wahanol gymeriadau wrth chwarae yn y tŷ bach twt.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

## 4.0 ANSAWDD Y DDARPARIAETH ADDYSGOL

Ansawdd y ddarpariaeth addysgol ar gyfer plant 3-4 oed

### 4.1 Ansawdd y cynllunio ar gyfer dysgu plant

**Nodweddion da**

Mae'r cynlluniau tymor hir a byr ar gyfer y cylch chwarae yn drylwyr ac yn debygol o hyrwyddo chwe maes y canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu. Maent yn ddogfennau defnyddiol sy'n rhoi arweiniad clir i'r staff ac yn sicrhau dilyniant a pharhad yn y profiadau. Mae'r ddarpariaeth wedi ei strwythuro'n dda ac yn caniatáu mynediad llawn i bob plentyn.

Cynigir amrywiaeth eang o brofiadau sydd wedi eu cynllunio'n ofalus ar gyfer datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau plant yn y chwe maes dysgu. Cyfoethogir y ddarpariaeth gan ymweliadau â'r parc, y swyddfa bost a'r llyfrgell yn ystod tymor yr haf.

Mae'r plant sydd o gefndir di-Gymraeg yn cael eu cymathu'n fuan ac yn effeithiol o fewn ethos Cymreig y cylch.

**Diffygion**

Nid yw'r cynlluniau'n darparu ar gyfer gweithgareddau awyr agored trwy gydol y flwyddyn.

### 4.2 Ansawdd yr addysgu

**Nodweddion da**

Mae gan y ddwy aelod staff wybodaeth a dealltwriaeth gadarn o'r canlyniadau dymunol ar gyfer dysgu plant. Maent yn adnabod y plant yn dda, yn rhoi sylw dyledus i bob unigolyn, ac yn gwahaniaethu tasgau yn effeithiol yn ôl eu haeddfedrwydd a'u anghenion.

Sefydlwyd trefn effeithiol i'r sesiynau a llwydda'r staff i greu amgylchedd addas ac ysgogol lle mae'r plant yn teimlo'n ddiogel a hyderus. O fewn terfynau priodol, maent yn caniatáu rhyddid i'r plant symud ac i wneud dewisiadau a phenderfyniadau drostynt eu hunain.

Gwneir defnydd effeithiol o amrediad da o adnoddau, yn bypedau, teganau bach a llyfrau, er mwyn ennyn diddordeb y plant a'u hannog i gymryd rhan yn y gweithgareddau.

Mae'r staff yn ymdrin ag unrhyw ymddygiad annerbyniol yn sensitif ac effeithiol gan ofalu fod pob plentyn yn cael ei drin yn deg.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

### 4.3 Ansawdd asesu a chofnodi cynnydd plant ac adroddiadau i rieni a gofalwyr

**Nodweddion da**

Sefydlwyd trefn effeithiol ar gyfer asesu a chofnodi cynnydd y plant tuag at y canlyniadau dymunol. Mae'r staff yn asesu cynnydd y plant yn ddyddiol drwy arsylwi arnynt wrth eu tasgau a chofnodi sylwadau arwyddocaol mewn llyfryn pwrpasol. Gwneir defnydd da o'r sylwadau hyn ar gyfer llunio cofnod o gynnydd sy'n rhoi darlun cynhwysfawr o gyflawniad y plant yn y chwe maes dysgu.

Mae'r trefniadau ar gyfer hysbysu rhieni a gofalwyr am y cynnydd y mae eu plant yn ei wneud yn nodwedd ragorol. Mae'r staff yn manteisio ar gyfleoedd i holi ac i rannu gwybodaeth berthnasol yn anffurfiol wrth i'r rhieni nôl eu plant o'r cylch meithrin. Yn ddiweddar, sefydlwyd trefn effeithiol o wahodd y rhieni i gyfarfod ffurfiol i weld enghreifftiau o waith eu plant ac i drafod eu cynnydd. Cyflwynir adroddiad i'r rhieni yn flynyddol ar ffurf llyfryn sy'n cynnwys enghreifftiau o waith eu plentyn ynghyd â chofnod o'i chynnydd/gynnydd yn y chwe maes dysgu.

**Diffygion**

Nid yw'r cofnodion asesu bob amser yn arenwi'r camau nesaf yn natblygiad y plant ac nid ydynt yn dylanwadu'n ddigonol ar y cynllunio wythnosol.

### 4.4 Ansawdd y berthynas â rhieni, gofalwyr a'r gymuned

**Nodweddion da**

Mae cysylltiadau'r cylch meithrin gyda rhieni a gofalwyr yn dda iawn. Anfonir llythyr i'r rhieni ddwy waith y tymor i'w hysbysu am y gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer yr wythnosau i ddod ac yn estyn gwahoddiad iddynt helpu lle bo'n berthnasol. Mae'r rhieni a'r gofalwyr yn cyfrannu'n sylweddol at gynnydd y plant drwy ofalu amdanynt yn ystod ymweliadau i leoedd y tu allan i'r feithrinfa.

Yn ystod tymor yr haf, gwneir defnydd priodol o'r amgylchedd lleol drwy drefnu ymweliadau perthnasol er mwyn hyrwyddo addysg y plant. Daw swyddogion y llyfrgell i'r cylch i siarad gyda'r plant yn ystod 'Wythnos y Llyfr'.

**Diffygion**

Nid yw'r cylch meithrin yn manteisio'n ddigonol ar gyfraniad aelodau'r gymuned er mwyn cyfoethogi ansawdd y ddarpariaeth.

## 5.0 ANSAWDD YR ARWEINYDDIAETH A'R RHEOLAETH

### Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad

**Nodweddion da**

Mae arweinydd y cylch meithrin yn brofiadol yn ei swydd ac mae wedi sefydlu systemau a threfniadaeth effeithiol. Mae ganddi weledigaeth gadarn o ran gwerthoedd a disgwyliadau. Trwy drafod yn rheolaidd a chydweithio'n agos gydag athrawes gysylltiol blynyddoedd cynnar yr awdurdod, mae'n arfarnu'r ddarpariaeth ac yn cynllunio ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol.

Mae gan yr arweinydd berthynas waith dda gydag aelodau'r pwyllgor rheoli, y bartneriaeth lleol, a'r Mudiad Ysgolion Meithrin. Gwna'r arweinydd a'r gynorthwywraig ddefnydd llawn o gyfleoedd hyfforddi a gynigir gan y tîm Blynyddoedd Cynnar a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth.

Llwyddodd y cylch i gael grant loteri ar ddau achlysur a defnyddiwyd yr arian yn effeithlon i brynu dodrefn ac adnoddau.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

## 6.0 DATBLYGIAD YSBRYDOL, MOESOL, CYMDEITHASOL A DIWYLLIANNOL

Y ddarpariaeth ar gyfer plant 3-4 oed

### Ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol

**Nodweddion da**

Mae trefniadau a bywyd o ddydd i ddydd yn y cylch meithrin yn hyrwyddo gwerthoedd pwysig megis gofal, cyfeillgarwch, caredigrwydd a pharch at eiddo. Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a chwrtais gan eu hannog i gydweithio, rhannu a helpu eraill.

Mae'r cylch meithrin wedi sefydlu strwythurau addas ac effeithiol ar gyfer cyflwyno'r iaith Gymraeg a diwylliant a thraddodiadau Cymru i'r plant.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol y plant drwy ymdawelu a chanu gweddi ar ddiwedd y sesiwn.

**Diffygion**

Nid oes unrhyw ddiffygion arwyddocaol.

## 7.0 CYNNYDD ERS YR AROLYGIAD DIWETHAF

**Y cynnydd a wnaed gan y lleoliad o ran rhoi ar waith y materion allweddol ar gyfer gweithredu a nodwyd yn yr adroddiad arolygiad diwethaf.**

| |
|---|
| Dyma'r tro cyntaf i'r cylch meithrin gael ei arolygu gan Estyn. |

## 8.0 Y MATERION ALLWEDDOL AR GYFER GWEITHREDU

**Y materion allweddol ar gyfer gweithredu**

**Mae angen i'r lleoliad:**

- gynllunio darpariaeth ar gyfer gweithgareddau awyr agored yn rheolaidd trwy gydol y flwyddyn;
- ddatblygu'r drefn asesu er mwyn arenwi'r camau nesaf yn natblygiad y plant a sicrhau bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y broses gynllunio;
- fanteisio'n llawn ar gyfraniad aelodau o'r gymuned er mwyn cyfoethogi ansawdd y ddarpariaeth.

**Rhaid i'r darparwr lunio cynllun gweithredu o fewn 40 diwrnod gwaith, neu 45 diwrnod gwaith os oes angen cyfieithu'r cynllun i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg, gan ddangos sut yr eir i'r afael â'r materion a nodir uchod. Rhaid rhoi'r cynllun gweithredu i bob rhiant/gofalwr â phlentyn yn y lleoliad. Rhaid anfon copi o'r cynllun gweithredu i Estyn. Bydd arfarniad o'r camau gweithredu a gymerwyd yn ffurfio rhan o'r arolygiad nesaf.**